S4C

26.03.20

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880450

**Erthygl i'r Wasg Press Article**

# Maggi yn estyn croeso cynnes a ffabiwlys yn ei G&B newydd

Mae'n chwaethus, ffabiwlys gyda golygfeydd gorjys a chyfleusterau heb eu hail - croeso i Wely a Brecwast Fferam Noggi sydd ar fin agor ei drysau i groesawu gwesteion.

Oes, mae menter newydd sbon ar y gweill gan ffermwraig mwyaf *glamorous* Ynys Môn Maggi Noggi wrth iddi arallgyfeirio ac agor gwely a brecwast.

Ac mae gwahoddiad i ni ymweld â Fferam (hen air Ynys Môn am fferm yn ôl Maggi) Noggi mewn cyfres newydd sbon **Gwely a Brecwast Maggi Noggi**.

Mae'r gyfres yn dechrau ar 8 Ebrill ar S4C ac yn y rhaglen gyntaf bydd Maggi yn croesawu neb llai nag Aloma (o'r ddeuawd Tony ac Aloma) i Fferam Noggi. Mae Aloma wedi rhedeg gwesty yn Blackpool am 40 mlynedd ac mae gan y gantores o Fôn lwyth o dips i Maggi.

Yn ystod y rhaglen bydd Maggi yn mynd am dro i Langefni a gofyn i bobl y dre am dips ar sut i redeg G&B a chael gwers glanhau gan Caren perchennog cwmni glanhau Tŷ Bach Twt. Hefyd, mae hi'n ymweld â Becws ym Miwmares i ddod o hyd i ddanteithion i weini i'w gwesteion.

Dyma ni yn cael sgwrs gyda Maggi Noggi a darganfod mwy am y gyfres newydd:

**Hia Maggi - Sut fyset ti'n disgrifio dy raglen newydd - Gwely a Brecwast Maggi Noggi?**

Wel, oedd rhaid i mi neud rhywbeth ar ôl inheritio tŷ mawr drws nesa ar ôl i Anti Arianrhod farw llynedd. A be' gwell na G&B? Esgus i gael llowcio cacs, sgwrsio a gossipio efo pob math o bobl ddiddorol. Ma' pawb ishio dod draw i aros!

**Ond beth am y fferm, Maggi? Wyt ti ddal yn ffermio, neu wyt ti wedi newid gyrfa i fod yn berchennog G&B?**

Na na, dwi 'di rhoi'r gorau i hynny - o'r diwedd! Mae gwartheg ac ieir ym mhobman dros Gymru yn does? A dwi yn hoffi *change* bach am 'chydig o amrywiaeth, felly, mewn ffordd dwi dal i ffermio, ond dwi wedi darganfod anifail reit anghyffredin - ond mi fydd rhaid i chi wylio'r rhaglen i ddarganfod be' ydy nhw.

Ac wrth gwrs, efo G&B poblogaidd dros ben, dwi yn weddol brysur, dwi wedi gorfod cael staff i helpu fi! O! Ac maen nhw yn dda, Gladys, Steffan, Mari a Christine fydd yn helpu rownd y tŷ, ac fe ddowch chi i nabod nhw dros y gyfres newydd. Meddyliwch am y Kardashians wedi'u cymysgu efo'r Krankies, C'mon Midffield a Dechra' Canu, Dechra' Canmol, dyna ydi teimlad y G&B. Cynnes efo *smattering* o ffabiwlys.

**Oes gwesteion arbennig yn ymweld â G&B Fferam Noggi?**

O!,O! Oes wir! Fe biciodd Aloma i mewn ar ôl cael pynctiar wrth yr eglwys yn Llanfair Mathafarn Eithaf. Wel wrth ryw lwc, roedd hi yn gwybod fy mod i ger llaw. O! Un da ‘dy hi, gawsom ni lwmp o hwyl, a hitha ‘di bod yn garedig i roi tips cadw G&B i fi.

Ma' Owain Tudur Jones ‘di bod draw i aros, a Cefin Roberts, Heledd Cynwal ac wrth gwrs y *Queen Bee* - Anji (Angharad) Mair. Mae'r hen Kate Middleton yn popio draw hefyd - fedra i ddim cael gwarad o honno, ma hi fatha rash!

**Maggi, ti wrth dy fodd yn mynd allan ar grwydr. Yn amlwg, mi wyt ti’n brysur iawn gyda’r fenter newydd - wyt ti’n cael cyfle, i fynd allan i gwrdd â dy ffans yn ystod y gyfres newydd?**

O ydw wir, fydda i wrth fy modd yn cael unrhyw gyfle i fynd allan i gwrdd â phobl yr Ynys, does neb gwell ar wyneb y ddaear na Moch Môn, a finna ydw'r hwch fwya’ ohonynt i gyd! Dwi’n cael cyfle i gwrdd â chymaint o bobl ddiddorol, a dwi 'di cael anturiaethau anhygoel wrth ffilmio'r sioe newydd ma. Ac ar ôl i chi ei weld, fyddwch chi bownd o fod ishio dod draw i aros i Gwely a Brecwast Fferam Noggi!

**Gwely a Brecwast Maggi Noggi**
**Nos Fercher 8 Ebrill 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar gael ar alw ar S4C Clic s4c.cymru/clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom ar gyfer S4C**

26.03.20

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880450

**Erthygl i'r Wasg Press Article**

# Maggi offers a warm and fabulous welcome at her new B&B

It's tasteful, fabulous, with beautiful views and a service which is second to none – welcome to Fferam Noggi Bed and Breakfast which is about to open its doors to guests.

Yes, Maggi Noggi – Anglesey's most glamorous farmer has got a brand new business on the go as she branches out into running a B&B.

And we are all invited to Fferam Noggi (and old Anglesey word for 'farm', according to Maggi) in a new series - **Gwely a Brecwast Maggi Noggi**.

The series starts on April 8 on S4C and in the first programme, Maggi will be welcoming none other than Aloma (from the well-known singing duo Tony and Aloma) to Fferam Noggi. Aloma has run a hotel in Blackpool for 40 years and the singer from Anglesey has plenty of top tips for Maggi.

During the programme, Maggi will be getting out and about with a visit to Llangefni where she asks some of the townspeople for some tips on how to run a B&B. She also gets a cleaning lesson from Caren – the owner of cleaning company Tŷ Bach Twt and a visit to Becws in Beaumaris to source some sweet treats for her guests.

We have managed to catch up with Maggi and find out more about the new series:

**Hi Maggi – how would you describe your series - Gwely a Brecwast Maggi Noggi?**

Well, I had to do something after inheriting the big house next door when my aunty Arianrhod died last year. And what better than to open a B&B? An excuse to guzzle cakes, chat and gossip with all sorts of interesting people. Everybody wants to come over and stay here!

**But what about the farm, Maggi? Are you still going to farm or have you changed career to become a B&B owner?**

No, I have stopped farming – at last! There are cows and hens everywhere in Wales, aren't there? And I like a little change to add a bit of variety to life. In a way I am still farming as I have come across a very unusual animal – but you will have to watch the programme to find out what it is.

And of course, with the B&B being so very popular, I am quite busy, so I have had to get some staff to help me. And, oh, they are good! Gladys, Steffan, Mari and Christine will be helping around the house and you will get to know them over the new series. Think of the Kardashians mixed with the Krankies, C'mon Midfield, Dechra Canu, Dechra' Canmol – that is the feel of the B&B. Warm with a smattering of fabulous.

**Do you have any special guests at Fferam Noggi B&B?**

Oh yes indeed! Aloma popped in after having a puncture by Llanfair Mathafarn Eithaf church. Well, by luck, she knew that I lived nearby. Oh, she was absolutely lovely, and we had a lot of fun and she was kind enough to give me some tips on running a B&B.

Owain Tudur Jones has been over to stay, Cefin Roberts, Heledd Cynwal and of course the Queen Bee - Anji (Angharad) Mair. That Kate Middleton has popped over too – I can't get rid of her, she's like a rash!

**Maggi, you love getting out and about. Obviously, you are very busy with your new enterprise – do you get the chance to get out and meet your fans in the new series?**

Oh, yes, I do. I love any excuse to get out and meet the people of Anglesey – there is no one nicer – they are the salt of the earth! I get to meet so many interesting people and I have had some wonderful adventures while filming this new show. After you watch it, you will definitely want to come over to Fferam Noggi Bed & Breakfast!

**Gwely a Brecwast Maggi Noggi**
**Wednesday 8 April 9.00, S4C**
**English subtitles**
**Available on demand on S4C Clic s4c.cymru/clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Boom production for S4C**